| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIADD** |
| **DYDDIAD** | **11 Medi 2012** |
| **PWNC** | **Hyfforddiant Aelodau** |
| **PWRPAS** | **Argymell y ffordd ymlaen gyda datblygiadau hyfforddiant** |
| **AWDUR** | **Cynghorydd Dewi Owen, Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.**<br>**Vera Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd** |

## 1. Beth yw'r sefyllfa gyfredol?

1.1 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i hyfforddi a datblygu aelodau etholedig i'w galluogi i gyflawni holl elfennau eu gwaith yn effeithiol.

1.2 Mae'r Canllawiau Statudol a wnaed o dan Fesur Llywodraeth Leol 2011 yn nodi

"*...mai'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros benderfynu beth ddylid eu hystyried yn gyfleoedd hyfforddi a datblygu rhesymol fel rhan o'i swyddogaeth i ddarparu cefnogaeth i aelodau gyflawni eu swyddogaethau."*

1.3 Mae rhaglen o hyffoddiant ar gyfer aelodau etholedig wedi ei ddatblygu a'i chyhoeddi ar gyfer 2012/13. Rhannwyd y rhaglen gyda phob aelod etholedig ar ddechrau'r Cyngor newydd. Mae'r rhaglen yn gyfuniad o gyrsiau sy'n cael eu datblygu a'u darparu'n fewnol, yn hyfforddiant gan gyrff allanol, rhai yn benodol i Wynedd ac eraill yn ddatblygiadau ar y cyd ar draws awdurdodau Gogledd Cymru. Bydd unrhyw ddiweddariadau i'r rhaglen yn cael eu cyfathrebu yn gyson gydag aelodau etholedig.

## 2. Materion sy'n codi

2.1 Hyfforddiant ychwanegol - Yn ychwanegol i'r rhaglen hyfforddiant, mae nifer o aelodau yn adnabod meysydd penodol sydd o ddiddordeb iddynt hwy i ddatblygu ac ehangu eu gwybodaeth ymhellach i'w galluogi i gyflawni eu rol fel aelod etholedig yn well. Maent yn gyfuniad o gyrsiau, seminarau a chynadleddau, ac yn ychwanegol i'r fframwaith gyfredol.

2.2 Yn gyfredol, nid oes trefn yn bod i sicrhau tegwch a chysondeb wrth benderfynu pwy sydd yn cael caniatad i fynychu 'cyrsiau ychwanegol'.

2.3 Gofynion y dyfodol - Yn ogystal, mae Canllawiau Statudol a wnaed o dan Fesur Llywodraeth Leol 2011 (mehefin 2012) yn nodi'r angen i sicrhau bod adolygiad blynyddol o anghenion hyfforddi a datblygu ar gael i bob aelod o'r awdurdod.

2.4 Nid oes trefniadau pendant mewn lle yn gyfredol i ymateb i 2.3 uchod.

## 3. Argymhellion

3.1 Er mwyn sicrhau y defnydd gorau o amser, argymhellir y dylid sefydlu is-grwp o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (o oddeutu 4 aelod ynghyd â'r Cadeirydd) er mwyn

- trafod y materion uchod, ynghyd ag unrhyw faterion eraill perthnasol i hyfforddiant, gyda'r Rheolwr Dysgu a Datblygu a'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

- gan adrodd yn ol i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar yr 11eg o Ragfyr 2012

3.2 Argymhellir fod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn

a) sefydlu is-grwp o 4 o aelodau, ynghyd â'r Cadeirydd
b) derbyn adroddiad gan yr is-grwp yn ei gyfarfod ar yr 11eg o Ragfyr 2012